

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE  
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB  
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

**Ffon** | Tel: 01352 810614 | **Ffacs** | Fax: 01352 810644  
**E-bost** | E-mail: [clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk](mailto:clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk)  
**Gwefan**: [www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/](http://www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/)  
**Web**: [www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/](http://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/)

[www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB](https://www.facebook.com/ClwydianRange&DeeValleyAONB)

@Clwyd\_Deer\_AONB

At: Aelodau'r Cyd-bwyllgor Ardal Dyddiad: 19 Chwefror, 2016  
o Harddwch Naturiol  
Eithriadol Bryniau Clwyd a Rhif 01824 712589  
Dyffryn Dyfrdwy Union: Ebst: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 26 Chwefror 2016** am **9.30 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

## AGENDA

- 1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**
- 2 COFNODION CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR A GYNHALIWDYD AR 26 MEHEFIN, 2015** (Tudalennau 5 - 14)  
Derbyn Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd 26 Mehefin, 2015 (copi'n amgaeedig).
- 3 COFNODION CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWDYD AR 16 HYDREF, 2015** (Tudalennau 15 - 26)  
Derbyn cofnodion cyfarfod Partneriaeth yr AHNE a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2015 (copi'n amgaeedig).

- 4 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 27 - 30)  
Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (copi'n amgaeedig).
- 5 CEISIADAU CYNLLUNIO AHNE Y PENDERFYNWYD ARNYNT**  
(Tudalennau 31 - 36)  
Derbyn crynodeb o Ymgynghoriadau Cynllunio AHNE ar gyfer y cyfnod Ebrill, 2015 hyd at fis Medi, 2015 (copi'n amgaeedig).
- 6 CYFLWYNIAD EIN TIRWEDD DDARLUNIADWY**  
I dderbyn cyflwyniad, "Ein Tirwedd Ddarluniadwy", gan yr Uwch Swyddog Hamdden (CSDd).
- 7 CYLLIDEB Y CYDBWYLLGOR** (Tudalennau 37 - 44)  
I dderbyn adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (CSDd) (copi'n amgaeedig) ar Gyllideb y Cydbwyllgor.
- 8 SWYDD BOSIBL PARTNERIAETH GYMUNEDOL CYFOETH NATURIOL CYMRU** (Tudalennau 45 - 50)  
I dderbyn adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad (copi'n amgaeedig) am y potensial i sefydlu Swydd Partneriaeth Gymunedol ar gyfer rhan ddeheuol yr AHNE mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.
- 9 CYLCH GORCHWYL A FFRAMWAITH PARTNERIAETH YR AHNE A DIWEDDARU A PHLETHU AG ADRODDIAD CYTUNDEB CYFREITHIOL Y CYDBWYLLGOR** (Tudalennau 51 - 64)  
I dderbyn adroddiad gan y Swyddog AHNE (copi'n amgaeedig) ar Fframwaith a Chylch Gorchwyl Partneriaeth yr AHNE.
- 10 ADRODDIAD CYNLLUN DIRPRWYO CYNLLUNIO AHNE** (Tudalennau 65 - 68)  
I dderbyn adroddiad gan y Swyddog AHNE (copi'n amgaeedig) ar yr ymateb i ymgynghoriadau cynllunio a datblygiad y cyfeirir at yr AHNE ar gyfer sylwadau.
- 11 ADRODDIAD YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN RHEOLI** (Tudalennau 69 - 78)  
I dderbyn adroddiad gan yr Uwch Swyddog Cefn Gwlad (copi'n amgaeedig) ar yr Ymgynghoriad ar Reoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

## **12 DYHEADAU DYFFRYN CEIRIOG I'W GYNNWYS YN YR AHNE**

Ystyried adroddiad ar lafar gan Gadeirydd y Cydbwyllgor.

## **13 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Ystyried dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol o Gydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy:-

24 neu 17 Mehefin, 2016

25 neu 18 Tachwedd, 2016

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Bernie Attridge  
Derek Butler  
Hugh Evans

Hugh Jones  
Huw Jones  
Ian Roberts

### **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL  
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY  
26 MEHEFIN 2015**

Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ar ddydd Gwener, 26 Mehefin 2015

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Hugh Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Huw L. Jones ac Ian Roberts

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Derek Butler a Hugh Evans

HEFYD YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr: Martyn L Holland (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), Lisa Jones (Cyfreithiwr/Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ddinbych), David Shiel (Swyddog Cynorthwyol AHNE), Martin Howarth (Pennaeth Gwasanaethau Cefn gwlad), Tom Woodall (Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Paul Mitchell (Swyddog Cefn Gwlad, Cyfoeth Naturiol Cymru), Steve Gadd (Rheolwr Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych), Huw Rees (Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth, Cyngor Sir Ddinbych)

PRESENOLDEB: Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor (Cyngor Sir y Fflint)

## **1. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## **2. COFNODION Y CYD-BWYLLGOR**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2015.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

### **3. COFNODION PARTNERIAETH YR AHNE**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 15 Mai 2015.

Materion yn codi

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at gyflwyno Gwobr yr AHNE 2014 a llongyfarchodd Mr. Richard Jones, Sgiliau Cefn Gwlad, am y gwaith rhagorol a wnaed yng Nghorwen. Dywedodd fod y wobr yn haeddiannol am y gwaith y mae Richard wedi ei wneud dros y blynyddoedd.

Soniodd y Cynghorydd Carolyn Thomas am y cynnydd cadarnhaol sy'n digwydd rhwng y Cyd-bwyllgor a'r Bartneriaeth sy'n arwydd da ar gyfer y dyfodol. Talwyd teyrnged i'r gwaith a wneir gan y Cynghorwyr Carolyn Thomas a Hugh Jones i adeiladu perthynas gadarnhaol gyda phartneriaid.

Yn ystod y drafodaeth, pwysleisiwyd pwysigrwydd cydnabod gwerth gwaith gwirfoddol. Tynnwyd sylw at y budd a geir o ddefnyddio contractwyr lleol a chreu cyflogaeth leol a'r angen i wella sgiliau pobl leol er mwyn gallu parhau â'r gwaith rhagorol a wnaed hyd yma.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

4. **ALLDRO A CHYFRIFON CYD-BWYLLGOR 2014/15 A CHYLLIDEB ARFAETHEDIG 2015/16**

Cyflwynodd Mr Steve Gadd, Rheolwr Cyllid yr adroddiad gan roi diweddariad ar sefyllfa ariannol AHNE ar gyfer 2014/15 a 2015/16. Eglurodd fod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o alldro referniw AHNE ar gyfer 2014/15 (fel y nodir yn Atodiad 1) a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid am sefyllfa gyffredinol yr alldro a dywedodd bod y tanwariant wedi'i ddwyn ymlaen i'w ddefnyddio yn 2015/16. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd yn Atodiad 1, eglurodd y Rheolwr Cyllid fod colofn mis Ebrill yn cyfeirio at y tymor 11 mis.

Dosbarthodd y Rheolwr Cyllid gopi terfynol o Ddatganiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 (fel y manylir yn Atodiad 2) er ystyriaeth a chymeradwyaeth. Esboniodd fod y copi diwygiedig yn cynnwys yr adolygiad a gynhaliwyd gan Adain Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Eglurodd y Rheolwr Cyllid fod cymeradwyo a llofnodi Datganiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfiol yn ofyniad statudol cyn cynnal Archwiliad Allanol o'r cyfrifon. Gwnaeth sylw ar ganfyddiadau'r asesiad Archwilio Mewnol a'r casgliadau a oedd wedi'u crynhoi yn y ddogfen gan ddweud bod anghysondeb bychan wedi digwydd mewn perthynas â pheidio hawlio TAW yn erbyn 2 dderbynneb.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge bod y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2014/15 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gymeradwyo. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Huw Jones a chytunodd y Pwyllgor trwy bleidlais.

Gofynnodd y Cynghorydd Huw Jones i ddiolchiadau gael eu trosglwyddo i Paula O'Hanlon am y gwaith a wnaed.

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2015/16 a oedd wedi'i diwygio i adlewyrchu newidiadau yn y ffrydiau ariannu. Dywedodd y

Rheolwr Cyllid y byddai'r gyllideb arfaethedig yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol i'r Cydbwyllgor dros y 12 mis nesaf, fodd bynnag, mae cyllidebau pob corff yn y sector cyhoeddus o dan bwysau cynyddol ac mae lefelau ariannu i'r dyfodol yn ansicr. Tynnodd Mr. Howard Sutcliffe sylw at y cynnydd yn y cyfraniad gan Wreccsam a chroesawyd hynny.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi Alldro Ariannol 2014/15;
- (b) Bod y Datganiad Cyfrifyddu ar gyfer 2014/15 a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd; a
- (c) Chymeradwyo cyllideb arfaethedig 2015/16

**5. CYFANSODDIAD DRAFFT A CHYLCH GORCHWYL PARTNERIAETH YR AHNE**

Cyflwynodd Mr Howard Sutcliffe, Swyddog yr AHNE adroddiad ynglŷn â Chyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Partneriaeth yr AHNE. Dywedodd bod Gweithgor Swyddogion yr AHNE wedi diwygio'r Cylch Gorchwyl a'r Cyfansoddiad gwreiddiol a luniwyd yn 2013 pan gâi'r AHNE ei arwain gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Dros Dro. Mae'r ddogfen newydd ar gyfer Partneriaeth yr AHNE yn deillio o sefydlu'r Cydbwyllgor a'r Cytundeb Cyfreithiol rhwng y tri Awdurdod. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor ystyried a chymeradwyo fersiwn ddrafft newydd y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl.

Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r ddogfen roi rhagor o ffocws ar y bartneriaeth gan nad yw'r berthynas rhwng y Cydbwyllgor a'r Bartneriaeth wedi'i diffinio'n ddigonol.



Ymatebodd Mr. Sutcliffe ei bod yn ddyddiau cynnar a'n bod yn ceisio sefydlu fframwaith gyda chynghor gan Lisa Jones (Dirprwy Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych) a Gary Williams (Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych) sy'n diffinio Partneriaeth yr AHNE fel fforwm i ddwyn partïon â diddordeb ynghyd.

Teimlai'r Aelodau fod angen ehangu'r fframwaith ynghyd â chynnwys adran ar y berthynas â'r Cyd-bwyllgor gan fod sawl agwedd yn wahanol bellach i'r pwyllgor ymgynghorol dros dro blaenorol.

Teimlai'r Aelodau fod angen egluro'r ddwy ardal ganlynol o waith yn y fframwaith llywodraethu:

- Mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd cyn hyn bob amser wedi'u penodi o'r Awdurdodau Lleol. Mynegodd aelodau'r Cydbwyllgor y gallai'r Cadeirydd ddod o unrhyw ran o aelodaeth y Bartneriaeth, yn hytrach na dod o Awdurdod Lleol bob amser.
- Dylid rhoi'r cyfle i holl aelodau'r Bartneriaeth anfon dirprwyon ar eu rhan. Mewn geiriau eraill, dylid naill ai peidio â chael dirprwyon o gwbl; neu adael i bawb fedru anfon dirprwy yn eu lle.

Dywedodd Mr Sutcliffe ei fod yn gobeithio y byddai'n cyflwyno Fframwaith a Chylch Gorchwyl diwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

Ceisir barn a chyfraniad y Pwyllgor hwn mewn perthynas â'r drafft terfynol ar ôl ymgynghori â'r Bartneriaeth.

Gwahoddwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd i holi cwestiynau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Huw Jones at y mater o anfon cynrychiolwyr a mynegodd y farn ei bod yn "annheg" fod modd i Aelodau anfon dirprwyon tra na allai grwpiau eraill a dywedodd y dylid trin pawb yn deg.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at baragraff 33 yn fersiwn ddrafft y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl a gwneud sylwadau ar faterion yn ymwneud â chynllunio a'r ansicrwydd ynghylch strwythur y Cyngorau yn y dyfodol. Gan gyfeirio at baragraff 34, gofynnodd y Cynghorydd Jones hefyd am ragor o fanylion ynglŷn â'r cynnig i ffurfio nifer o Weithgorau newydd i gyflawni'r Cynllun Rheoli a gwaith arall a gofynnodd faint o aelodau fyddai'n ffurfio'r grwpiau. Dywedodd Mr. Sutcliffe mai'r nifer delfrydol o aelodau fyddai rhwng 5 ac 8, fodd bynnag mater i'r Bartneriaeth oedd penderfynu ar yr aelodaeth.

Byddai Gweithgor Swyddogion yn cael ei gynnull i ddiwygio'r Gweithgorau, byddai hyn wedyn yn cael ei gynnis i'r Bartneriaeth. Y Bartneriaeth fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch pwy sy'n eistedd ar y Gweithgorau perthnasol.

Dywedodd Lisa Jones bod Cylch Gorchwyl eisoes wedi ei lunio ar gyfer y Bartneriaeth ac y cytunwyd yn ei gylch yr un pryd â Chytundeb Cyfreithiol y Cydbwyllgor. Yr hyn nad oedd wedi ei ddatblygu ar y pryd oedd dogfen lywodraethu'r Bartneriaeth, sef y 'fframwaith' ar gyfer gwneud penderfyniadau ond bod angen i hynny fod yn ddatblygiad cydweithredol gyda'r Bartneriaeth ei hun a'r Cadeirydd. Dywedodd Miss Jones y byddai'n hapus i weithio gyda'r Bartneriaeth a Swyddogion Cefn Gwlad er mwyn cynorthwyo i bennu cwmpas y fframwaith hwn os oes angen; mae angen gwneud mwy o waith i symleiddio'r drafft cyfredol sydd gerbron y Pwyllgor, yn nodi ei rôl a bod yn glir ynglŷn â beth y gellir a beth na ellir ei ddirprwyo, yn arbennig o ran ymgynghoriadau cynllunio ac ymgynghoriadau cysylltiedig. Dylai'r ddogfen ganolbwyntio ar y Bartneriaeth, nid ar y Cyd-Bwyllgor, gan fod hynny eisoes wedi ei gynnwys yn y Cytundeb Cyfreithiol, ac ar egluro'r berthynas rhwng y Bartneriaeth a'r Cyd-Bwyllgor. Eglurodd y gall y Cyd-Bwyllgor adolygu a monitro aelodaeth y Bartneriaeth, ond eu bod ar wahân i'w gilydd; y dylai fframwaith lywodraethu arfaethedig gyfeirio at y llinellau cyfathrebu rhwng y ddau endid.

Gan gyfeirio at y mater cynllunio, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i is-bwyllgor ar hyn o bryd. Dywedodd fod angen mewnbwn ynglŷn â cheisiadau cynllunio gan aelodau gwirfoddol.

Yn ystod y drafodaeth pwysleisiwyd bod angen canllawiau clir yn y ddogfen i bawb dan sylw yn dweud beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau a beth y gallent ei wneud a beth na allent ei wneud, yn arbennig ar gyfer aelodau lleyg ac Aelodau Etholedig. Cyfeiriwyd at faterion cynllunio fel enghraifft gan fod gwrthdaro weithiau rhwng y Pwyllgor Cynllunio a chyrrff eraill. Ategwyd yr angen am ganllawiau er mwyn i aelodau'r Bartneriaeth ddeall beth y maent yn edrych arno a beth yw'r nod. O'r blaen cafodd pwerau dirprwyedig eu rhoi i Swyddogion i ymateb i faterion cynllunio ar lefel is ond y gellid ystyried y broses honno eto fel rhan o'r gwaith hwn.

Pwysleisiodd y Cadeirydd mai ei ddealltwriaeth ef yw, fel Cyd-Bwyllgor, nad oes gennym unrhyw awdurdod i ddirprwyo unrhyw rai o'n pwerau i'r Bartneriaeth nac i unrhyw un arall. Cadarnhaodd Miss Jones y gellir dirprwyo swyddogaethau gweithredol ond bod y gyfraith yn gosod allan yn eithaf rhagnodol (ac yn cyfyngu ar) y personau y gellir mewn gwirionedd ddirprwyo swyddogaethau iddynt gan y Weithrediaeth, megis Swyddogion Awdurdod neu Awdurdod Lleol arall. At hynny, ni fyddai dirprwyo unrhyw swyddogaethau gweithredol yn atal yr Awdurdod ei hun rhag parhau i fod yn gyfrifol am y swyddogaethau hynny, y caiff hyn ei gadw bob amser.

Mynegodd y Cadeirydd hefyd bryderon pe bai ymateb gan naill ai'r Cyd-Bwyllgor neu'r Bartneriaeth yn cael i roi i gais cynllunio ac yn dylanwadau ar y cais cynllunio hwnnw y gallai fod costau cyfreithiol yn gysylltiedig â gwneud penderfyniad anghywir. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen am eglurder ynghylch pwy fyddai'r ymgynghorai statudol (os o gwbl) a dywedodd bod angen hefyd i'r broses o bwy sy'n ymateb mewn gwirionedd gael ei wneud yn glir. Dywedodd bod risgiau posibl na ddylai'r Cyd-Bwyllgor amlygu ei Awdurdodau Lleol. Efallai mai is-grŵp cadarn a all roi ymateb da yw'r ffordd ymlaen.

Roedd angen rhagor o eglurder mewn perthynas â materion cynllunio, yn enwedig os ydym yn caniatáu i'r Bartneriaeth ymateb ar ein rhan, a ydym yn gyfrifol am yr ymateb hwnnw. Mae angen i'r Pwyllgor sicrhau nad ydym fel Cyd-Bwyllgor yn amlygu ein hunain i risg.

Cododd y Cynghorydd Martyn Holland hefyd y mater ynglŷn ag aelodau etholedig ar y Bartneriaeth a rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio, ond efallai hefyd eu bod yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio dilynol. Dywedodd Miss Jones bod yr Aelodau hynny'n rhwym drwy'r Cod Ymddygiad ond y gall aelodau gymryd penderfyniadau (cyhyd â bod ganddynt ddim cysylltiad sy'n rhagfarnu) mewn cyfarfodydd dilynol gyda chyrff eraill; ond bod angen iddynt sicrhau nad ydynt wedi tueddbennu eu sefyllfa ymlaen llaw. Roedd hyn wrth gwrs yn wahanol i aelodau'r Bartneriaeth nad ydynt yn aelodau etholedig, ac nid ydynt hwy yn rhwym gan y Cod Ymddygiad, ond yn cytuno i fod yn rhwym wrth y 'Cytundeb'.

Cynigiodd y Cynghorydd Bernie Attridge fod fersiwn ddrafft ddiwygiedig y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl yn dychwelyd ger bron y Cyd-Bwyllgor ar ôl ymgynghori yn ei gylch gyda Phartneriaeth yr AHNE.

Gofynnodd y Cadeirydd i fersiwn drafft y Cyfansoddiad neu'r Fframwaith (beth bynnag y gelwir ef) a'r Cylch Gorchwyl gael eu cylchredeg i'r holl aelodau a bod unrhyw sylwadau'n cael eu hanfon drwy e-bost i'r Cadeirydd ac i'r Cynghorydd Huw Jones cyn eu hanfon at y Bartneriaeth ar gyfer ymgynghori.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod fersiwn drafft y Cyfansoddiad/Fframwaith a'r Cylch Gorchwyl yn cael eu cylchredeg i'r holl aelodau a bod unrhyw sylwadau'n cael eu hanfon drwy e-bost i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Huw Jones cyn eu hanfon at y Bartneriaeth i ymgynghori yn eu cylch.

(b) Bod fersiwn drafft diwygiedig y Cyfansoddiad/Fframwaith a'r Cylch Gorchwyl yn dychwelyd gerbron y Cyd-Bwyllgor i'w cadarnhau ar ôl ymgynghori yn eu cylch gyda Phartneriaeth yr AHNE.

## **6. YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN RHEOLI**

Cafwyd diweddariad llafar gan David Shiel ar yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun Rheoli a dywedodd bod cyfnod yr ymgynghoriad rhwng 4 Mai a 29 Mehefin 2015. Hysbyswyd yr aelodau bod pum cyfarfod ymgynghori wedi eu cynnal ar draws yr AHNE a gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i fynychu nifer o sesiynau galw heibio. Bu'r ymgysylltu yn gadarnhaol a chafwyd 22 o ymatebion. Anfonwyd y Cynllun Rheoli i bob Cyngor Tref a Chymuned, Awdurdodau Lleol a budd-ddeiliaid allweddol. Adroddodd ar y camau nesaf a dywedodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ar yr ymgynghoriad i Gydbwyllgor nesaf yr AHNE.

## **7. ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Cyflwynodd y Cadeirydd Adroddiad Blynyddol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2014-15 a thynnodd sylw at y gwaith sylweddol, eang ei gwmpas a gynhaliwyd yn yr AHNE o ran gwelliannau a buddion i gymunedau lleol, cyfleusterau, a lles corfforol cyffredinol. Gwahoddodd Howard Sutcliffe, Swyddog yr AHNE, i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol.

Gwnaeth Mr. Sutcliffe sylw am yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ac am werth ac amrywiaeth ardderchog y prosiectau a ddarparwyd a nodwyd Tŵr y Jiwbilî a Phorth Ymwelwyr Llandysilio i Safle Treftadaeth y Byd fel dwy enghraifft. Dywedodd fod y Swyddogion AHNE bob amser yn croesawu rhagor o gynigion prosiect ar gyfer cyllid o'r gronfa datblygu cynaliadwy, fodd bynnag, bron fod y cyllid ar gyfer y flwyddyn hon wedi ei ddyrannu i gyd, ond efallai y bydd arian ychwanegol ar gael ym mis Ionawr 2016.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Huw Jones, darparodd y Swyddogion ragor o wybodaeth ar y gwaith a wneir gyda phobl ifanc fel rhan o brosiect Plas Madog a chyfeiriodd y Cynghorydd Jones eto at lwyddiant Mr Richard Jones yn derbyn Gwobr yr AHNE.

Dywedodd y Swyddogion hefyd bod cyfleoedd yn cael eu darparu, o ran cymorth staff, i alluogi pobl hŷn i ymweld â mannau o fewn yr AHNE na fyddai modd iddynt ymweld â nhw fel arall.

## **8. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Mr. Howard Sutcliffe y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Tynnodd sylw at yr eitemau sydd wedi eu hamserlenni i'w trafod o dan Gynlluniau Strategol 2014-16, a Phartneriaeth yr AHNE. Darparwyd manylion pellach i'r Aelodau ynglŷn â'r prosiect 'Picturesque'/'Darluniaidd'.

Mynegodd y Cadeirydd ei farn y dylai'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddynodi'r canlyniadau y mae'r Pwyllgor yn bwriadu eu cyflawni ac awgrymodd y dylid mabwysiadu statws COG (coch, oren a gwyrdd) i fonitro perfformiad.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y cafodd ei chyflwyno;
- (b) Bod statws COG (Coch, Oren a Gwyrdd) yn cael ei fabwysiadu yn y Rhaglen i fonitro perfformiad yn y dyfodol.

## **9. Y CYHOEDD A'R WASG A OEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw un o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.  
(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am, a daeth i ben am 11.15am)

.....  
**Cadeirydd**



Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eiddadael  
Area of Outstanding Natural Beauty

**Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol  
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy  
Cofnodion y Cyfarfod  
a gynhaliwyd ar  
ddydd Gwener 16 Hydref 2015  
ym  
Mhafiliwn Chwaraeon, Corwen  
am 10.00 am.**

**Aelodau Partneriaeth AHNE**

**Chynrychiolwyr Rheoli Tir**

Sandy Archdale  
Gareth Wyn Jones  
Sharron Jones

**Cynrychiolwyr Buddiannau Unigol**

Helen Walker  
David Davies  
John I Roberts

**Cynrychiolwyr Buddiannau Gwledig**

Christine Evans  
Roger Cragg

**Cynrychiolydd Buddiannau Tirwedd**

Michael Skuse

**Cynrychiolydd Buddiannau Gwledig**

Tony King

**Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol**

Les Starling

**Cynrychiolydd yr Amgylchedd Adeiledig**

Philip Durrell

**Cynrychiolwyr Buddiannau Gwledig**

Dewi Davies

**Cynrychiolwyr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn  
Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE)  
David Shiel (Uwch Swyddog AHNE)  
Tony Hughes (Swyddog Cynllunio AHNE)  
Helen Mrowiec (Uwch Swyddog Hamdden AHNE)  
Karen Holthofer (Swyddog Cyfathrebu AHNE)  
Ceri Lloyd (Swyddog Datblygu Cynaliadwy AHNE)

**Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Wrecsam**

Cynghorydd RJ Dutton OBE  
Anna Irwin (Uwch Swyddog yr Amgylchedd a  
Chadwraeth)

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorydd Stuart Davies (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Huw L Jones  
Y Cynghorydd Merfyn Parry  
ynghyd â  
Huw Rees (Pennaeth Gwasanaeth Cefn Gwlad a  
Threftadaeth CSDd)  
Lisa Jones (Cyfreithiwr/Dirprwy Swyddog Monitro  
Cyngor Sir Ddinbych)

**Cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint**

Y Cynghorydd Colin Legg  
ynghyd â  
Tom Woodall (Pennaeth Gwasanaethau Cefn Gwlad  
CSFf)

**Arsylwr Cyfoeth Naturiol Cymru**

Paul Mitchell

**Arsylwr yn y Cyfarfod**

Simon Collinge  
Neville Howell

1. **Croeso/Ymddiheuriadau**  
**Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:** -  
Y Cynghorydd Hugh Jones, Y Cynghorydd Lloyd Kenyon, Y Cynghorydd  
Martyn Holland, Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Y Cynghorydd Paul  
Cunningham, Mr Martin Howarth,  
Mr Peter Scarll, Mr Philip Thane, Mr Andrew Worthington

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r arsyllwyr i'r ail gyfarfod o  
Bartneriaeth AHNE, a chyflwynwyd Anna Irwin (Swyddog yr Amgylchedd a  
Chadwraeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Mai 2015**

2.1 Tudalen 5 5.1

Cynllun Rheoli AHNE

***Adran 1.3 ("Ar gyfer pwy mae'r Cynllun?") Awdurdodau Perthnasol  
Partneriaid yr AHNE; Tirfeddianwyr a Rheolwyr Tir; a Chymunedau Lleol,***

Dywedodd Philip Durrell nad oedd wedi'i gynnwys yn y cofnodion ei fod wedi  
awgrymu ychwanegu adran arall o dan yr un pennawd o'r enw  
**'Defnyddwyr Allanol Eraill' neu 'Ymwelwyr â'r AHNE'**

Aeth ymlaen i egluro y byddai'r Cynllun o arwyddocâd i ymwelwyr yr AHNE -  
p'un ai ydynt yn ymweld ar gyfer twristiaeth neu weithgarwch gwyliau  
goddefol, dylid cydnabod eu buddiannau.

2.2 Tudalen 6 5.1

Adran 20

Cyfeiriad at gynnwys Mynyddoedd Llandysilio

Cynigiodd y Cynghorydd Bob Dutton bod y diwygiadau uchod i gael eu  
gwneud i'r cofnodion, a chafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

2.3 Dyddiadau Cyfarfod Partneriaethau

Byddai dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu hystyried o dan 'Unrhyw Fusnes

Arall'

**Cam gweithredu**

Byddai'r cofnodion yn cael eu newid i gynnwys cynigion Philip Durrell

***Yn amodol ar y newidiadau, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r  
cyfarfod.***

3. **Dangos Achos:**

**Cynllun Bathodyn yr AHNE**

Dangosodd Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE a benodwyd yn  
ddiweddar, Ceri Lloyd, yr achos yn gryno (gyda chymorth cyflwyniad  
PowerPoint). Eglurodd bod Tywyswyr Prosiect AHNE wedi eu sefydlu yn  
wreiddiol pan oedd y Tîm AHNE yn ymgysylltu â busnesau twristiaeth a  
darparwyr awyr agored wedi'u lleoli yn Nyffryn Dyfrdwy. Roedd y darparwyr



awyr agored wedi mynegi diddordeb mewn ennill gwell dealltwriaeth a gwybodaeth o'r dirwedd y maent yn byw a gweithio ynddynt. Yn dilyn hynny, mae'r Tîm AHNE wedi cydlynu cwrs pwrrpasol gyda'r busnesau sydd â diddordeb.

Hyd y cwrs oedd rhwng 7 neu 8 mis y gellid ei ymestyn dros y flwyddyn. Roedd yn cynnwys cyflwyniadau ystafell ddogfen, gwaith ymarferol ac asesiad ar gyfer amrywiaeth o themâu gan gynnwys sgiliau arwain, amgylchedd hanesyddol, yr iaith Gymraeg a diwylliant, bioamrywiaeth a rheoli rhostir. Roedd y sesiynau'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth gyda Archeolegydd y Sir, Fiona Gale, a Daearegwr CNC, Raymond Roberts a Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych, Lizzy Webster.

Mae rhai o fanteision y cwrs yn cynnwys:

- ✚ Mae busnesau lleol yn elwa o wybodaeth helaeth am yr ardal y maent yn byw a gweithio ynddo
- ✚ cyfranogwyr y cwrs yn dod yn llysgenhadon ar gyfer yr AHNE
- ✚ Rhannu gwybodaeth a gafwyd gyda'u cwsmeriaid

Pwysleisiodd y Swyddog Datblygu Cynaliadwy bod y cynllun yn ffordd wych i ddarparwyr/busnesau awyr agored i ryngweithio gyda'r Tîm AHNE a darganfod mwy am eu hardal leol.

Cafwyd trafodaeth. Cytunodd yr Aelodau bod y cynllun yn fenter ardderchog. Cododd un aelod bryderon bod busnesau weithiau'n symud i ffwrdd o'r ardal, a'i bod yn hanfodol bod y cwrs yn parhau i weithredu. Holodd aelod arall pe bai modd agor y cynllun i bartïon eraill addas â diddordeb at ddibenion addysgol.

Ymatebodd y Swyddog Datblygu Cynaliadwy y rhagwelir y byddai'r cynllun yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ymhellach yng ngoleuni'r profiad a gafwyd.

#### 4. **Fframwaith a Chylch Gorchwyl yr AHNE**

Darparodd y Swyddog AHNE gefndir y ddogfen a ddogfenwyd, gan esbonio bod y Cylch Gorchwyl gwreiddiol wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE blaenorol. Pan ffurfiwyd y Partneriaeth AHNE newydd, a oedd yn cynnwys 3 Awdurdod Lleol (Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, CBSW) crewyd fframwaith newydd a'r Cylch Gorchwyl gyda chyngor gan Ddirprwy Gyfreithiwr Monitro Cyngor Sir Ddinbych, Lisa Jones.

Cyflwynwyd Lisa i'r aelodau gan y Swyddog AHNE, ac fe eglurodd bod fframwaith wedi ei gynhyrchu sydd yn gyffredinol yn egluro'r berthynas rhwng y Cyd-Bwyllgor a Phartneriaeth AHNE.

Roedd y Cadeirydd ac uwch swyddogion AHNE wedi cwrdd i ystyried y ddogfen ac roedd yn awr yn cael ei gyflwyno i'r Partneriaeth i'w ystyried. Un o'r prif newidiadau i'r ddogfen oedd bod rôl y Cadeirydd yn cael ei agor i'r holl aelodau.

Ychwanegodd y Cadeirydd mai'r arfer arfaethedig ar gyfer ymateb i gynllunio ymgynghoriadau (argymhellion) oedd bod y Cyd-bwyllgor (CB) ond yn gallu

dirprwyo cyfrifoldeb i swyddogion ac nid y Bartneriaeth, felly byddai pob ymateb cynllunio yn cael ei anfon allan ar ran y Cyd-bwyllgor. Eglurodd y Swyddog AHNE yn ystod y cyfnod interim bod Swyddog Cynllunio AHNE wedi parhau ymateb i ymgynghoriadau a dirprwyaethau cysylltiedig ar ran yr AHNE a'r Bartneriaeth, mewn ymgynghoriad â'r Cynghorydd Hugh Jones, Cadeirydd y Cydbwyllgor.

- 4.1 Yn y drafodaeth ddilynol codwyd y mater ynghylch a allai'r Cydbwyllgor oruwchreoli argymhelliad y Bartneriaeth. Dywedodd y Dirprwy Gyfreithiwr Monitro mewn theori y gallai'r Cyd-bwyllgor wrthod y bartneriaeth. Fodd bynnag, eglurodd y Swyddog AHNE ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r senario hynny byth yn digwydd. Dywedodd y Cynghorydd Huw L Jones (Aelod o'r Cyd-bwyllgor) mewn achos annhebygol y byddai'r senario hynny yn codi y byddai gofyn i Aelodau'r Bartneriaeth i gyfarfod a thrafod y sefyllfa gydag Aelod Cyd-bwyllgor a mynychu'r Cyfarfod Cyd-Bwyllgor.

Eglurodd y Cadeirydd fod y Bartneriaeth ar hyn o bryd yn mynd trwy gyfnod trosiannol ac unwaith y byddai'r is-grwpiau yn cael eu cynnull, byddai ceisiadau cynllunio mawr yn cael eu hystyried gan y Grŵp Tirlun ac Amgylchedd Adeiledig.

Awgrymwyd y dylai'r tri Pwyllgor Cynllunio gael eu hysbysu pan fydd yr is-grŵp yn ymgynnull i sicrhau nad oedd dealltwriaeth lawn o rôl y Bartneriaeth.

Holwyd pwy fyddai'n gallu gwneud cais i fod yn Aelod Dirprwy ar ran y Bartneriaeth, ymatebodd Swyddog AHNE os yw aelodau yn gwybod am unigolyn yr oeddent yn meddwl oedd gan y wybodaeth a'r brwdfrydedd ar gyfer yr AHNE, a'u bod yn barod ac yn gallu cymryd lle yr aelod mewn cyfarfodydd yna gallai aelodau wirfoddoli'r person hwnnw.

Trafodwyd Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE ac awgrymwyd y dylai'r Bartneriaeth fod yn fwy o ran yn y prosiectau newydd wrth symud ymlaen. Gofynnodd y Cadeirydd bod pob aelod yn ystyried unrhyw brosiectau yr oeddent yn gredu y byddai yn brosiectau addas i'w hariannu drwy Gronfa Datblygu Cynaliadwy i'w dwyn at sylw'r Swyddog Datblygu Cynaliadwy. Pwysleisiodd y Cadeirydd pan oedd yn briodol, y byddai'n arfer da i rai prosiectau i gael eu cyflwyno gan aelodau'r Bartneriaeth ac iddynt fod yn rhan o brosiectau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

#### 4.2 Tudalen 4 Pwynt 27

***Mae gan Swyddogion AHNE yr awdurdod dirprwyedig i ymateb i gynllunio ac ymgynghori arall ar ran y Cyd-bwyllgor. Byddant yn ymgynghori â'r Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig Partneriaeth AHNE ar geisiadau arwyddocaol***

Cwestiynodd aelod y ieithwedd 'sylweddol' a phwysleisiodd bod yn rhaid i bob aelod fod yn ymwybodol o'r paramedrau. Eglurwyd y byddai hyn yn cael ei ddiffinio yn y Cynllun Dirprwyo i gael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor y mis nesaf.

## **Cam gweithredu**

Nodwyd y sylw gan y Dirprwy Gyfreithiwr Monitro

### **5. Penodi Aelodau i Is-grwpiau Partneriaeth**

Rhoddodd y Swyddog AHNE ddiweddariad ar lafar ar yr is-grwpiau Partneriaeth yn egluro y byddent yn cael eu hymgynnull i ystyried meysydd penodol.

Byddai 5 o Is-grwpiau:

- 1. Cronfa Datblygu Cynaliadwy**
- 2. Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig**
- 3. Rheoli Tir ac Amgylchedd Naturiol**
- 4. Treftadaeth, Diwylliant a Chymunedau**
- 5. Hamdden, Twristiaeth, ac Ymgysylltu Busnes**

Ffurflenni i ddangos y grŵp o ddewis yr aelodau wedi'i ddsbarthu at aelodau'r Bartneriaeth.

Eglurodd y Swyddog AHNE nad oedd aelodau o reidrwydd yn gorfod eistedd ar unrhyw un o'r

is-grwpiau. Fodd bynnag, pe bai aelodau yn awyddus i gyfrannu ymhellach at y Bartneriaeth, byddai eu cymorth yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Eglurodd yr Uwch Swyddog AHNE mai'r ffordd y rhagwelwyd y sefyllfa oedd bod Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu a'i gwblhau gan yr is-grwpiau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ee

1	Cronfa Datblygu Cynaliadwy	- Cymunedau - Tirfeddianwyr/ffermwyr - CYFOETH NATURIOL CYMRU
2	Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig	- x 3 o Adrannau Priffyrdd - CYFOETH NATURIOL CYMRU
3	Rheoli Tir a'r Amgylchedd Naturiol	- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru - Grid Cenedlaethol - Prosiect Etifeddiaeth Calchfaen - Gwaith Cadwraeth (os yw cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn llwyddiannus) - CYFOETH NATURIOL CYMRU

- |   |   |   |
|---|---|---|
| 4 | Trefladaeth, Diwylliant a Chymunedau      | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Archaeoleg</li> <li>- Ddiwydiannol</li> <li>- Menter Iaith</li> <li>- Chwarel Mwynglawdd</li> </ul>                            |
| 5 | Hamdden, Twristiaeth ac Ymgysylltu Busnes | <ul style="list-style-type: none"> <li>- Croeso Cymru</li> <li>- Darpariaeth ar</li> <li>- farchogaeth ceffyl i'w ystyried</li> <li>- CYFOETH NATURIOL CYMRU</li> </ul> |

Nododd y Cadeirydd y gallai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio Awdurdod Lleol barhau i fod yn aelod o'r Is-grŵp Cynllunio, gan fod hyn wedi ei fabwysiadu o fewn y Cytundeb Cyfreithiol.

## 6. Dangos Achos:

### **Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Rhoddodd Mr Michael Skuse ddiweddiariad byr ar lafar ar 'Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' gan egluro bod y Cyfeillion wedi cael ei lansio'n llwyddiannus ar 15 Gorffennaf ym Mhlas Newydd, Llangollen. Bellach roedd gan y ffrindiau 82 o Aelodau, wedi eu recriwtio drwy daflen aelodaeth a ddosbarthwyd yn eang yn yr ardal. Un o amcanion y grŵp oedd i geisio gwneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gan fod y rhan fwyaf ddim yn ymwybodol o bwrpas yr AHNE. Roedd y Cyfeillion wedi trefnu digwyddiadau, rhai ar y cyd â chymdeithasau eraill, ac roedd y rhain wedi cael ymateb da. Maent bellach wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Elusennau gyda'r bwriad i gadw a gofalu am Fryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sydd wedi'u dynodi'n AHNE ac yn cynorthwyo i warchod a gwella ei gyfleusterau er budd y cyhoedd, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â chyrff neu sefydliadau eraill y mae'r ymddiriedolwyr yn gredu sy'n bwrpasol, gan gynnwys hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am nodweddion arbennig y dirwedd a'i threfladaeth naturiol a diwylliannol. Aeth Michael ymlaen i bwysleisio ei bod hi'n dal i fod yn ddyddiau cynnar, a bod y Cyfeillion yn cymryd pethau un cam ar y tro. Yn y dyfodol gallai Cyfeillion fod yn berchen ar dir neu eiddo arall a gwneud cais am grantiau ar gyfer prosiectau. Roedd un aelod eisoes wedi awgrymu prosiect posib o glirio pwll. Pwysleisiodd bod y Cyfeillion yn gwbl ar wahân i'r tîm Rheoli AHNE, a gwahoddwyd aelodau'r Bartneriaeth i ystyried dod yn Ffrindiau ac o bosib yn aelodau gweithgar o'r pwyllgor. Diolchodd Michael i aelodau o'r Tîm AHNE am eu cefnogaeth a'u cymorth ariannol trwy Gronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE.

## 7. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Diwygiadau Arfaethedig i Is-ddeddfwriaeth ar gyfer Rheoli Datblygu

Eglurodd y Swyddog Cynllunio AHNE bod Deddf Cynllunio Cymru wedi derbyn cydsyniad eleni, ac roedd Llywodraeth Cymru (LlC) bellach yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth a rheoliadau i weithredu'r Ddeddf. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â thri maes:

- 1. Ymgynghoreion Statudol**
- 2. Datganiadau Dylunio a Mynediad**
- 3. Tai Amfeddiannaeth**

Aeth y Swyddog Cynllunio ymlaen i egluro mai cynigion y 'Datganiad Dylunio a Mynediad' (DAS) oedd fwyaf perthnasol i'r AHNE. Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhai o ardaloedd sensitif Cymru, ond nid Parciau Cenedlaethol neu AHNE. Yr argymhelliad oedd y dylai'r trothwy isaf ar gyfer Datganiad Dylunio a Mynediad gael ei ymestyn i AHNE a Pharciau Cenedlaethol.

Cafwyd trafodaeth, a holwyd a ddylai'r ardaloedd y tu allan i'r AHNE ond o fewn ei leoliad gael eu hystyried. Eglurodd y Swyddog Cynllunio y byddai'n rhy gymhleth i gynnwys ardaloedd y tu allan i'r AHNE. Pryderon eraill a godwyd oedd ynghylch adfywio o safbwynt busnes ac a fyddai'n cael ei gyfyngu. Ymatebodd y Swyddog Cynllunio y gallai Datganiadau Dylunio a Mynediad fod yn faich ychwanegol ar fusnesau ond ni fyddai'n rhwystro unrhyw benderfyniad ynghylch a fyddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, a byddai'n fodd i wella dyluniad yn yr AHNE.

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn cydnabod bod prinder tai yn yr ardal a thrafodwyd sut y gellid goresgyn hyn yn lleol gyda datblygwyr mewn ffordd a fyddai'n ategu'r AHNE. Cynigwyd datblygu tir llwyd ac ailddefnyddio adeiladau presennol fel atebion posibl.

## **PENDERFYNWYD**

Bod yr ymateb a argymhellir i gael ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor i gynnwys cyfeiriad at ddatblygu tir llwyd ac ailddefnyddio adeiladau sydd eisoes yn bodoli.

**“Mae'r Cyd-bwyllgor yn croesawu cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru o rinweddau Datganiadau Dylunio a Mynediad, ac yn cefnogi'r angen i egluro cwrmpas a chynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad i symleiddio'r broses a'u gwneud yn fwy perthnasol.**

**Y bwriad i gadw Datganiad Dylunio a Mynediad ar gyfer datblygiadau mawr ar draws Cymru ac ar gyfer datblygiadau llai mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd i adlewyrchu'r ffaith y gall cynigion mewn ardaloedd o'r fath 'gael llawer mwy o effaith ar gymeriad yr ardal o sensitifrwydd uwch yn lle y maent wedi eu lleoli 'yn cael ei gefnogi hefyd. Fodd bynnag, mae'r Cyd-bwyllgor yn siomedig nad yw'r sensitifrwydd uwch i dirweddau gwarchoddedig Cymru i ddatblygu yn cael ei gydnabod yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r pwyllgor yn credu'n gryf yn yr angen i annog ac yn benodol i ategu'r angen am ddyluniad o ansawdd uchel mewn tirweddau a ddiogelir yn genedlaethol, ac yn ystyried y methiant i roi statws cyfateb i ardaloedd o'r fath yn ychwanegol at Ardaloedd Cadwraeth a Chyflenwadau**

Iechyd Cymru yn israddio eu pwysigrwydd ac yn tanseilio ymdrechion i hyrwyddo dylunio da.

Byddai'r Cyd-Bwyllgor felly yn argymhell i'r trothwy datblygu is ar gyfer Datganiad Dylunio a Mynediad hefyd gael ei gymhwyso i AHNE a'r Parciau Cenedlaethol (C.8)

Byddai'r trothwyon is a gynigir ar gyfer Datganiad Dylunio a Mynediad mewn ardaloedd sensitif a nodir yn y ddogfen yn ymddangos yn cydbwysedd rhesymol rhwng yr angen i gydnabod sensitifrwydd ardaloedd o'r fath ac yn gwneud y Datganiad Dylunio a Mynediad yn fwy perthnasol ac ymatebol. (C.9)

Y bwriad i ymgorffori datganiad ar ddylunio i'r Datganiadau Effaith Treftadaeth arfaethedig yn y Mesur Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar gyfer gwaith i Adeiladau Rhestredig ac Henebion Cofrestredig a Chaniatâd i Ardal Gadwraeth yn gwneud synnwyr ac yn helpu i leihau dyblygu pan fo angen caniatâd cynllunio hefyd. Ymestyn y darpariaethau hyn i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yn cael ei gefnogi hefyd. (C10)

Mae natur ragnodol y rheoliadau sy'n ymwneud â chynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad wedi cyfrannu at yr agwedd 'ticio blychau' i'r broses, ac mae'r pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i symleiddio cynnwys a'i wneud yn fwy perthnasol ac ystyrlon drwy ganolbwyntio ar faterion dylunio sydd fwyaf perthnasol i amgylchiadau penodol. (C12.)

Hoffai'r Bartneriaeth dynnu sylw Llywodraeth Cymru at yr angen i hyrwyddo datblygu tir llwyd ac aildefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes ymhellach."

## 8. **Briffiau Datblygu Drafft Safle**

### **Cae Ffyddion, Dyserth a Ffordd Hendre/Maes Meurig, Gallt Melyd**

Rhoddodd Swyddog Cynllunio AHNE gyflwyniad ar lafar ac esboniodd bod Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl) a fabwysiadwyd yn 2013 wedi dyrannu safleoedd yng Ngallt Melyd a Dyserth ar gyfer datblygiad preswyl.

Roedd yr Awdurdod Cynllunio yn awr yn ceisio sicrhau datblygiad o safon uchel ar gyfer y safleoedd drwy baratoi briffiau datblygu safleoedd i arwain ar ddatblygiad yn y dyfodol. Mae'r safleoedd wedi eu lleoli y tu allan i'r AHNE ond cawsant eu hystyried i fod o fewn lleoliad y dirwedd warchoddedig yn rhinwedd eu hagosrwydd at yr AHNE.

Pwysleisiodd y Swyddog Cynllunio mai'r mater canolog i'r Bartneriaeth ei ystyried oedd sicrhau bod gan unrhyw ddatblygiad ystyriaeth i rinweddau arbennig yr AHNE ac y byddai unrhyw effaith ar olygfeydd o'r tirlun gwarchoddedig yn cael eu lliniaru.

Roedd Aelodau yn cydnabod bod y safleoedd yn agos at yr AHNE. Fodd bynnag, roeddent yn cydnabod hefyd nad oedd prinder tai ar gyfer pobl ifanc. Ailadroddodd y Swyddog Cynllunio bod yr ymateb ddim yn gwrthwynebu'r cynigion ond eisiau cyflawni'r cynllun gorau posibl ar gyfer y datblygiad. Yna codwyd pryderon a fyddai hyn yn effeithio ar gost yr eiddo. Dywedodd y Swyddog Cynllunio nad oedd yr ymateb yn rhagnodol ac ar y cyfan cyfeirir at liw y

deunyddiau, diogelu nodweddion presennol y dirwedd - coetiroedd, coed a gwrychoedd a thirlunio newydd.

## **PENDERFYNWYD**

**“Bod y Cyd-bwyllgor yn nodi bod Ffordd Hendre a Maes Meurig yn cael eu dyrannu i’w datblygu yn y CDLl ac yn cefnogi paratoi briff safle i lywio datblygiad yn y dyfodol.**

Un o nodweddion arbennig yr AHNE a ddiffiniwyd ac sydd wedi’i nodi yn y Cynllun Rheoli drafft 2014 -2019 yw 'Pellenigrwydd a Natur Wyllt, Gofod a Rhyddid', gan gynnwys y gallu i brofi 'golygfeydd di-dor a helaeth o'r uchelfannau sydd ynddo.' Mae'r ddau safle yn hynod weladwy o dir uwch yr AHNE i'r dwyrain, yn enwedig Graig Fawr a Bryn Prestatyn, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Felly, dylai effaith y datblygiad a all dorri ar draws golygfeydd pwysig o'r AHNE gael ei ystyried wrth lunio'r canllawiau datblygu safleoedd, ac mae'r Cyd-bwyllgor yn siomedig nad yw'r ddogfen yn cydnabod bod y safleoedd o fewn lleoliad yr AHNE neu'r angen i ystyried effeithiau o'r fath.

Byddai'r pwyllgor yn argymhell y dylid cynnwys y materion hyn yn y briff datblygu. Adran 4, sy'n tynnu sylw at bolisiau allweddol y CDLl y dylid cyfeirio atynt i gynnwys Polisi VOE2 ac i dynnu sylw bod y safleoedd yn cael eu hystyried i fod o fewn lleoliad yr AHNE. Mae angen sicrhau bod y dull cyffredinol o ddatblygu, yn enwedig tirlunio, yn ystyried yr angen i liniaru effeithiau ar yr AHNE, yn arbennig ar olygfeydd o dir uwch yr ardal a ddiogelir gael eu pwysleisio yn Adran 5. Gwerthuso a Gofynion Safleoedd a 6 o Amcanion Dylunio. Yn ogystal, byddai'r pwyllgor yn awgrymu y dylai'r briff fynegi'r angen i ddatblygu yn seiliedig ar egwyddor arweiniol sy'n ceisio integreiddio ac amsugno'r datblygiad yn ei amgylchedd gwledig yn bennaf o'r cychwyn cyntaf.

Materion penodol y byddai'r pwyllgor yn dymuno eu gweld yn cael pwysleisio drwy'r ddogfen i gynnwys:

- Pwysigrwydd cadw a gwarchod nodweddion tirwedd presennol - coetiroedd, coed a gwrychoedd - a fydd yn helpu i feddalu golygfeydd ac i dorri ar y nifer o adeiladau.
- Cydnabod bod y safleoedd yn eithaf 'agored' o ran cymeriad mewn golygfeydd o'r AHNE a sicrhau bod strategaeth tirwedd benodol yn cael ei lunio ar gyfer y safleoedd sy'n ymateb i hyn drwy gryfhau nodweddion tirwedd presennol a darparu tirlunio ychwanegol i amgáu a thorri ar y golygfeydd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r cyfeiriadau at ffiniau naturiol presennol a'r angen i'w cryfhau gyda phlannu ychwanegol yn cael ei gefnogi (paragraffau 5.19-5.20).
- Yr angen i blannu coed/gwrychoedd strwythurol i gael eu nodi yn y strategaeth tirwedd. Dylid ei roi ar waith ar y cyfle cyntaf posibl ac yn ddelfrydol cyn y datblygiad.

- Dylai lliw ac adlewyrchedd pob gorffeniad wal a deunyddiau toi fod yn enciliol o ran natur i'w helpu i ymdoddi i mewn i'r olygfa wledig mewn golygfeydd o'r tir uwch yn yr AHNE. Yn y cyd-destun hwn, mae'r pwyllgor yn cefnogi'r awgrym y dylai'r deunyddiau (ee toeau llechi a waliau calchfaen naturiol) a ffurf adeiledig y datblygiad hwn adlewyrchu'r un gerllaw yn Ardal Gadwraeth Penrhwyfya yng Ngallt Melyd (para 5.23).”

## 9. Eitemau Brys

### 9.1 **Materion a godwyd gan aelodau**

Cynrychiolydd Diddordeb Trefol, Philip Thane

Roedd Philip Thane methu bod yn bresennol yn y cyfarfod ac ni chafodd yr eitem ei ystyried.

### 9.2 **Eitem a godwyd gan y Cadeirydd**

